


Mae graffiau yn ddull defnyddiol iawn o adnabod tueddiadau a newidiadau sydyn mewn ymddygiad ac mae'n ddefnyddiol iawn mewn meddygaeth

Yn y sioe MathsApps gwelsom un defnydd o graffiau mewn meddygaeth. Mae graff o ganraddau pwysau yn cael ei ddefnyddio'n aml ar gyfer plant a babanod i wneud yn siŵr eu bod yn tyfu ar y gyfradd arferol.

Mae siart ganradd yn dangos sut mae mesur a gymerwyd yn cymharu â dosbarthiad ystadegol y boblogaeth gyfan. Felly, os yw plentyn ar y 30ain ganradd, mae 30% o'r boblogaeth yn pwysu llai, a 70% yn pwysu mwy. Os yw plentyn ar y ganradd 70, yna mae 70% o'r boblogaeth yn pwysu llai a 30% yn pwysu mwy. Nid yw canraddau yn dweud wrthym p'un a yw'r mesur yn normal neu annormal, ond mae'n ddefnyddiol ar gyfer cymharu. Yn bwysicach, maent yn cael eu defnyddio i ganfod a yw'r person sy'n cael ei archwilio wedi symud o un ganradd i'r llall. Er enghraifft, os yw babi ar y 10fed ganradd pan gafodd ei eni ond wedyn yn disgyn i'r 3ydd ganradd byddai meddygon am ymchwilio ymhellach gan y gallai hyn awgrymu y gallai fod problem.

Pwysau ar gyfer merched oedran - 5-10 oed (canraddau)



Cyfeirnod Sefydliad Iechyd y Byd 2007

www.sciencemadesimple.co.uk

